# Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009

**2009 mccc 2**

## RHAN 1

GWELLA LLYWODRAETH LEOL

*Rheoleiddwyr perthnasol a'u swyddogaethau*

### 16 Ystyr “rheoleiddwyr perthnasol” a “swyddogaethau perthnasol”

(1) At ddibenion y Rhan hon, mae “rheoleiddiwr perthnasol” yn berson a restrir yn is-adran (2) a “swyddogaethau perthnasol” y rheoleiddiwr yw'r rhai a bennir mewn cysylltiad â'r person hwnnw yn yr is-adran honno.

(2) Mae'r rheoleiddwyr perthnasol a'u swyddogaethau perthnasol fel a ganlyn—

[F1](a) . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

[F2](b) . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

(c) person a benodwyd o dan adran 28 o Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21) (arolygwyr) wrth arfer ei swyddogaethau o dan adran 28(1) o'r Ddeddf honno;

**[**[F3](d) Comisiynydd y Gymraeg wrth arfer swyddogaethau o dan adran 17 o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 (p. 38) (ymchwiliadau);**]**

[F4](e) . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

(3) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy orchymyn—

(a) diwygio neu hepgor unrhyw baragraff yn is-adran (2);

(b) ychwanegu paragraffau ychwanegol at yr is-adran honno;

(c) diwygio neu hepgor paragraffau ychwanegol o'r fath.

(4) Caiff gorchymyn o'r fath wneud unrhyw ddiwygiadau i'r Mesur hwn sy'n ymddangos yn angenrheidiol neu'n hwylus i Weinidogion Cymru mewn cysylltiad â'r ddarpariaeth a wnaed o dan is-adran (3).

(5) Rhaid i Weinidogion Cymru beidio â gwneud gorchymyn o'r fath onid ydynt wedi ymgynghori â'r canlynol—

(a) personau y mae'n ymddangos iddynt eu bod yn cynrychioli awdurdodau gwella Cymreig;

(b) Archwilydd Cyffredinol Cymru;

(c) pan fo'r gorchymyn yn newid y swyddogaethau perthnasol sydd wedi'u pennu mewn cysylltiad â rheoleiddiwr perthnasol, y rheoleiddiwr hwnnw;

(d) pan fo'r gorchymyn yn ychwanegu person at y rhestr o reoleiddwyr perthnasol, y person hwnnw.

(6) Ond nid yw is-adran (5)(d) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru fod wedi ymgynghori â pherson a sefydlwyd drwy neu o dan unrhyw ddeddfiad os nad yw'r deddfiad mewn grym ar y dyddiad y gwneir y gorchymyn.

**Diwygiadau Testunol**

**F1** A. 16(2)(a) wedi ei hepgor (1.4.2021) yn rhinwedd Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (asc 1), **aau. 113(d)**, 175(7); O.S. 2021/297, ergl. 2(b) (ynghyd ag erglau. 4, 5, 7-9)

**F2** A. 16(2)(b) wedi ei hepgor (1.4.2021) yn rhinwedd Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (asc 1), **aau. 113(d)**, 175(7); O.S. 2021/297, ergl. 2(b) (ynghyd ag erglau. 4, 5, 7-9)

**F3** A. 16(2)(d) wedi ei amnewid (1.4.2012) gan Gorchymyn Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (Trosglwyddo Swyddogaethau, Darpariaethau Trosiannol a Chanlyniadol) 2012 (O.S. 2012/990), erglau. 1(2), **12**

**F4** A. 16(2)(e) wedi ei hepgor (1.4.2014) yn rhinwedd Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 (anaw 3), **aau. 11(2)**, 35(2) (ynghyd ag Atod. 3 parau. 2, 3); O.S. 2013/1466, ergl. 3(1)

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 16 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 53(2)**

**I2** A. 16 mewn grym ar 17.7.2009 gan O.S. 2009/1796, **ergl. 2(i)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, Croes Bennawd: Rheoleiddwyr perthnasol a'u swyddogaethau yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 06 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.
View outstanding changes

**Changes and effects yet to be applied to the whole Measure associated Parts and Chapters:**

– Measure repealed by 2021 asc 1 s. 170(1)

Whole provisions yet to be inserted into this Measure (including any effects on those provisions):

– Sch. para. 10 omitted by 2018 anaw 2 Sch. 1 para. 16